

Lesley Griffiths AC/AM  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Deiseb P-05-895  
Ein cyf/Our ref LG/06521/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

// Medi 2019

*Annwyl Janet*

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-05-895: Etifeddiaeth Rosa: Cyflwyno cynllun i helpu pobl ddod o hyd i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau safonau lles uchel ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru, yn ystod pob cyfnod o'u bywydau. Dylai anifeiliaid gael eu gwarchod rhag poen, anaf, ofn a gofid.

Mae'n bwysig bod darpar berchnogion anifeiliaid anwes a pherchnogion presennol yn ystyried y dyfodol wrth benderfynu a ydynt am fod yn berchen anifail ai peidio, gan gynnwys sut i fodloni eu hanghenion lles a'r costau'n gysylltiedig â gwneud hynny. Fodd bynnag, mae amgylchiadau pobl yn gallu newid.

Yn fy Natganiad Llafar ym mis Mehefin 2018, ymrwymais i edrych ar pa ddarpariaeth filfeddygol, cymorth a chyngor sydd ar gael i bobl sydd angen help wrth ofalu am eu hanifeiliaid anwes. Gallai hyn fod yn ystod cyfnodau o salwch neu argyfwng, megis ffoi o gartref treisgar.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru sy'n casglu gwybodaeth am y cymorth sy'n cael ei roi gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ac maent yn aros am ymateb. Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad cyn gynted ag y bydd ar gael.

*Xn gywir  
Lesley*

**Lesley Griffiths AC/AM**  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.